Cofnodion
Grŵp Llywio PBC 10fed Chwefror 2009, Gregynog, Powys.

Yn bresennol

Enw		**Mudiad**
Nigel	Ajax-Lewis	Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru
David	Allen	Cyngor Cefn Gwlad Cymru (papur)
Steven	Bladwell	RSPB/WEL (ar ran Tim Stowe)
Aethne	Cooke	CCGC
Hazel	Drewitt	CCGC
Emma	Durward	Cydlynydd CGBLl Lleol
Gareth	Ellis	CGBLl De Cymru
Heli	Gittens	Tîm Cefnogi PBC
Ian	Guildford	CCGC/Heddlu De Cymru (papur)
Tim	Hall	Swyddog Morol WTW
Juliet	Hynes	Tîm Cefnogi PBC
David	Jenkins	Coed Cymru
Kate	Lock	Cydlynydd Chwilio Môr Gorllewin Cymru
Virginia	Prieto Salas	Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd Cymru
Dick	Shaw	CABI (papur)
Jan	Sherry	CCGC
Delcie	Simkin	Tîm Cefnogi LlCC/PBC
Alison	Smith	Adran Economi a Thrafnidiaeth (LlCC)
Glenda	Thomas	FWAG
Chris	Tucker	Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Kate	Williamson	Parciau Cenedlaethol
Robin	Woodyatt	CLlLC

Ymddiheuriadau

Enw		**Mudiad**
Steven	Bromley	Groundwork
Cliff	Benson	Seatrust
Peter	Birch	British Waterways
Mike	Bruford	Prifysgol Caerdydd
Helen	Buckingham	Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru
Anne	Butler	CGBLl Gogledd Cymru
Stephen	Jones	CLlLC
Sean	McHugh	Tîm Cefnogi PBC
Steve	Moon	ALGE
Gerry	Quarrell	LlCC
Ieuan	Roberts	Cymdeithas Edward Llwyd
Sean	Russell	Wales Env Hub
Bill	Somerfield	Tîm Cefnogi LlCC/PBC
Tom	Stowe	RSPB/WEL
Deb	Hill	CLlLC/Dinas a Sir Abertawe
Roy	Tapping	Canolfannau Cofnodion Lleol
Dusi	Thomas	Welsh Water Dwr Cymru

Croeso a Chyflwyniad
Croesawyd y grŵp gan y Cadeirydd (Diana Reynolds) ac eglurodd fod Ann John (Morol LlCC) wedi mynd ar absenoldeb salwch tymor hir felly roedd Gerry Quarrell yn dal yn gyfrifol am ddwy swydd ac yn ymddiheuro na allai fynychu'r cyfarfod. Darllenodd y Cadeirydd nodyn gan Gerry oedd yn diolch i aelodau PBC am eu gwaith. Roedd yn cydnabod her targedau 2010 ond yn annog y grŵp i feddwl am yr hyn sy'n digwydd y tu hwnt i 2010. Soniodd Gerry hefyd ei fod yn disgwyl am nodyn gan Adran Gynllunio LlCC ar yr adolygiad cynllunio a bydd yn anfon hwn ymlaen i'r Grŵp Llywio pan gyrhaeddith gan bod yn rhaid i fioamrywiaeth gael ei gynnwys yn yr adolygiad. Pwysleisiodd unwaith yn rhagor ei ymrwymiad personol ef a'r Gweinidog i fioamrywiaeth.

Papur 1: Rheoli Canclwm Siapan, Dick Shaw, CABI
Alison Smith (Adran E a T) gyflwynodd y pwnc hwn gan bod Adran Economi a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru yn un o noddwyr y gwaith ymchwil yn erbyn Canclwm Siapan. Mae'r ymchwil wedi cyrraedd Cam 3 erbyn hyn, sef y cyfnod gweithredu a thrwyddedu.

Mae'r Ganolfan Ryngwladol Amaethyddiaeth a Biowyddorau (CABI) yn fudiad byd-eang, di-elw y mae DEFRA yn aelod ohono ar ran y DU. Mae'n cynnig atebion fel y compendiwm ar-lein i rywogaethau goresgynnol (gellir cael mynediad prawf i hwn drwy ebostio Dick Shaw r.shaw@cabi.org).
Mae CABI ar fin uno gyda Kew i ddarparu casgliad mycolegol craidd a chanolfan ymchwil.

Cafwyd cyflwyniad cynhwysfawr gan Dick oedd yn amlinellu egwyddorion rheolaeth fiolegol ac yn edrych yn fanwl ar rywfaint o'r ymchwil a wnaed i ddewis trychfilyn llysysol. (Bydd cyflwyniad wedi'i leisio ar gael yn y dyfodol i fynd gyda'r ymgynghoriad, yn anffodus nid ydym yn gallu rhoi'r cyflwyinad presennol ar y we.)

Mae'r trychfilyn (*Aphalara itadori,* llysleuen) a ddewiswyd fel y cyfrwng bioreolaeth posibl yn erbyn y Canclwm, yn sbesiffig dros ben. Fel arfer dim ond ar rywogaethau canclwm y mae'n dodwy wyau ac mae'r rhai gaiff eu dodwy ar rywogaethau eraill yn tueddu i beidio datblygu. Hefyd nid ydynt yn bwydo'n dda ar rywogaethau heblaw *japonica*. Edrychwyd hefyd ar effaith eilaidd a thrydyddol y trychfilyn hwn, mae ysglyfaethwyr yn bwydo arno ond yn tueddu i ddewis eu hysglyfaeth naturiol drosto.

Yr amserlen drwyddedu – mae'r dadansoddiad risg pla terfynol newydd ei gyflwyno. Yn yr haf bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei ddilyn gan benderfyniadau gan y Gweinidog. Mae prosiectau ar y gweill hefyd ar y ffromlys chwarennog a rhywogaethau eraill.

Yn dilyn y cyflwyniad, holodd David Jenkins (Coed Cymru) a fyddai'r llysleuen yn cael ei defnyddio fel triniaeth bwynt neu a ddisgwylid iddi wasgaru'n naturiol. Byddai rhywfaint o wasgariad naturiol yn cael ei ddisgwyl, er mewn nifer o'r achosion hyn, gwelwyd pobl yn casglu deunydd a'i drosglwyddo i'r mannau problemus eu hunain ac felly'n cynyddu'r gwasgariad. Uchafswm gwasgariad naturiol llysleuen yw 13km. Dywedodd David Jenkins, pe baent yn cael eu gadael i wasgaru'n naturiol, y gallai fod anhawster cael y llysleuen dros y mynyddoedd sy'n gwahanu dyffrynnoedd linellol Cymru.

Gofynnodd Gareth Ellis (cynrychioli CGBLl) sut fyddai'r trychfilyn yn cael ei ryddhau. Y cynllun yw rhyddhau nifer cyfyngedig ar safleoedd o werth isel (mwy fel prawf maes) fel y gellir ei chwistrellu os oes rhywbeth yn mynd o'i le. Disgwylid 4-6 safle i'r union ryddhau ond ni fydd ei gytrefnu'n cael ei fodelu'n wyddonol gan mai pobl fydd yn ei symud.

Gofynnodd David Allen CCGC a oedd dulliau rheoli posibl yn cael eu hystyried yn ystod y broses werthuso rhag ofn i'r annisgwyl ddigwydd. Y cynllun wrth gefn yw bod yn barod â phryfleiddiaid. Bydd yr unig rywogaeth llyfr data coch y mae'r llysleuen wedi goroesi arni, yn cael ei phlannu allan yn y safle rhyddhau a phe bai'r lysleuen yn ymosod ar y rhywogaeth hon byddai'n cael ei dinistrio â phryfleiddiad.

Holodd Stephen Bladwell beth yw'r canlyniad a ragwelir. Ni fydd y llysleuen yn cael gwared â'r Canclwm yn llwyr, ond dylai ei wanhau ddigon i'w wneud yn haws ei reoli. Dylai'r planhigion fod yn llai ac yn fwy blêr, yn llai cystadleuol, gyda chanopi mwy agored sy'n caniatau adferiad rhywogaethau cynhenid.

Gofynnodd David Jenkins a allai Dick Shaw ddychwelyd ar adeg addas i sôn am y rhaglen i reoli'r ffromlys chwarennog a chytunodd pawb ar hyn.

Gweithredu 1. Pawb – cysylltu â Dick i gael mynediad i'r compendiwm rhywogaethau goresgynnol ar y we
r.shaw@cabi.org
Gweithredu 2. Dick Shaw - anfon cyfeiriad i'w gyhoeddi ar reoli'r Canclwm i dîm Cefnogi PBC ei ddosbarthu.
Gweithredu 3. Pawb – cymryd rhan yn ymgynghoriad cyhoedus rheoli'r Canclwm sydd fod i ddigwydd yn haf 2009
Gweithredu 4. Y tîm cefnogi i drefnu i Dick ddod yn ôl i siarad am reoli'r ffromlys chwarennog.

Papur 2: Adolygiad o flaenoriaethau trosedd bywyd gwyllt Cymru, Sgt Ian Guildford, CCGC
Disgwylir i'r blaenoriaethau bywyd gwyllt cenedlaethol (DU), er nad ydynt wedi'u cadarnhau eto, aros yn debyg i'r rhai presennol. Mae blaenoriaethau Cymru'n dyddio o 2004 ac awgrymir bod angen eu hadolygu erbyn hyn yng ngoleuni sut yr aseswyd y blaenoriaethau cenedlaethol.

I ddewis y blaenoriaethau cenedlaethol (DU), cynhaliwyd cyfarfod i asesu pryderon a blaenoriaethau cadwraeth a defnyddiwyd dull matrics o sgorio. Yna bwydwyd y sgoriau hyn i gyfarfod tasglu trosedd bywyd gwyllt ar lefel uchel, a ychwanegodd foch daear a photsio gan bod y rhain yn faterion trosedd bywyd gwyllt ond nid yn rhai cadwraeth.

Ar lefel y DU, mae gan bob blaenoriaeth berchennog cynllun a fydd yn edrych ar y materion a meddwl am gynlluniau, o dan hyn mae gorfodaeth.

Roedd y broses hon yn gweithio felly byddai'n fuddiol gwneud defnydd o hyn. Cafwyd trafodaeth am ailadrodd y broses yng Nghymru ond gwrthodwyd hyn o blaid cyflwyniad a chymeradwyaeth gan Grŵp Llywio PBC. Bydd yr adolygiad blynyddol cenedlaethol yn cael ei gyheoddi yn Hydref/Tachwedd.

Sut ydym am fynd drwy'r broses hon o adnabod blaenoriaethau Cymru?
Bydd cyfarfod ar 23ain Chwefror 2000 yn Llandrindod yn trafod y problemau yng Nghymru, cyfarfod i orfodwyr yw hwn. Dywedodd Jan Sherry CCGC y byddai'n diddorol gweld y data adrodd am drosedd bywyd gwyllt er na fyddai hyn mae'n debyg yn adlewyrchu'r darlun llawn felly mae'n gwneud synnwyr i edrych ar y materion cadwraeth hefyd. Byddai gan CCGC ddiddordeb mewn cymryd rhan yn y broses.

Roedd gan bwyllgor pysgodfeydd môr Gogledd Cymru bryderon, ar eu rhan eu hunain a phwyllgor De Cymru, nad oedd troseddau pysgodfeydd yn cael eu hystyried.

Nid oedd troseddau SoDDGA yn cael eu bwydo i'r uned chwaith. Dylai CCGC fod yn casglu'r ffigyrau hyn ac mae angen protocol i'w bwydo i mewn i'r uned trosedd bywyd gwyllt. Gellid gwneud yr un fath ar gyfer problemau morol a physgodfeydd. Mae angen casglu ffigyrau ACA morol hefyd. Gall yr uned trosedd bywyd gwyllt cenedlaethol ddadansoddi'r ffigyrau hyn os ydynt yn eu derbyn. Mae'r heddlu yndibynnu ar yr hyn y gall mudiadau eraill ddwyn gerbron i hybu amddiffyn.

Gweithredu 5. Ian Guildford i ddod â blaenoriaethau terfynol y DU yn ôl i GLlPBC i'w gwirio o safbwynt cadwraeth ac yna penderfynu ar flaenoriaethau Cymru.
Gweithredu 6. Pwyllgorau pysgodfeydd môr Gogledd a De Cymru i lunio rhestr o achosion pysgodfeydd, mor bell yn ôl â phosibl, i'w trosglwyddo i'r uned drwy Ian Guildford.
Gweithredu 7. CCGC i roi data SoDDGA i Ian Guildford.

Papur 3: Adolygiad o Argymhellion Troseddau Bywyd Gwyllt yr Alban, Sgt Ian Guildford, CCGC
Aeth Ian drwy'r rhestr o argymhellion yr Alban (papur 3, atodiad 1) a nododd sut yr oeddent yn cael eu trin yng Nghymru fel a ganlyn:
Argymhelliad 1. cael ei drin gan Strategaeth Amgylcheddol Cymru
Argymhelliad 2-7 Cymru ar y blaen gyda'r rhain. Bydd Seminar Gwasanaeth Erlyn y Goron yn dwyn ynghyd y 4 ardal heddlu ac mae'r argymhellion yma naill ai ar y gweill neu byddant yn cael eu trafod yn y cyfarfod hwn. Mae A 5. yn bodoli ond mae'n bosibl nad yw'r gymuned fioamrywiaeth yn ymwybodol o hyn.
A 8-10 ddim yn berthnasol i Gymru. PBC yn gweithredu fel grŵp llywio PAW yr Alban.

A 11. Dogfen orfodaeth PBC yn ymdrin â hyn.
A 12. i'w thrafod yn y dyfodol.
A 13. Mewn bod yn barod, Gwent bellach yn mynd i'r afael â hyn drwy benodi 10 swyddog trosedd bywyd gwyllt arall ac yn cynnal hyfforddiant.
A 14-15. mewn lle yng Nghymru a Lloegr.
A 16. Mewn lle. 2 secondiad CCGC, 2 AACymru ac i CC Cymru.
A 17. Ddim yn bosibl
A 18. PBC yn ymdrin â hyn.
A 19. Rhywfaint o gyllid ar gael i waith fforensig drwy DEFRA, e.e profi DNA adar neu brofi meddyginiaeth traddodiadol. Dim cyllid ar gael fel arall, cofiwch y gall fod yn ddrud iawn atafael anifeiliaid gan bod yn rhaid gofalu ar eu hôl. Yr RSPCA sy'n gwneud llawer o'r gwaith atafael anifeiliaid oherwydd y costau.
A 20. Mewn lle
A 21-22. Mewn lle
A. 23-24 Gall fod problemau yma, mae asiantaethau eraill angen adborth gan yr heddlu ond nid ydynt yn ei gael bob amser. Yng Nghymru nid yw'r sefyllfa gynddrwg gan fod gwaith partneriaeth da yma. Os oes protocol da mewn lle e.e. Memorandwm o Ddealltwriaeth mae'r ddwy ochr yn gwybod beth yw'r broses.

Cytunodd GLlPBC ei fod yn fodlon i'r PBC gymryd rôl Grŵp Llywio PAW Cymru.

Mae Strategaeth Amgylchedd Cymru, y Cynllun Gweithredu a'r ddogfen Gymeradwyaeth yn ymdrin â digon o argymhellion yr Alban am y tro.

Gweithredu 8. Ian Guildford i adrodd yn ôl i Diana Reynolds yn syth ar ôl y Cyfarfod ar 23ain Chwefror.

Gweithredu 9. Ian Guildford i argymell i'r cyfarfod ar y 23ain Chwef. y gallai Argymhelliad 5 gael ei wneud yn rhestr wirio PBC.

Papur 4: Dangosyddion Bioamrywiaeth, David Allen, CCGC
Comisiynwyd gwaith newydd gan Lywodraeth y Cynulliad i ystyried datblygu dangosyddion bioamrywiaeth fel ag y'u rhestrwyd yn y strategaeth amgylcheddol, nod y rhain yw mynd i'r afael ag ystod o amrywiaeth bio a genetig. Mae angen eglurhad ar y berthynas rhwng hwn a gwaith David Allen. Mae canlyniadau'r contract hwn i fod i gael eu cyhoeddi ganol Ebrill.

Gweithredu 10. Diana Reynolds i edrych ar bwrpas y dangosyddion hyn a chynnig PBC fel ymgynghorwyr i grŵp dangosyddion LlCC (Richard Evans yw'r cyswllt yn LlCC)

Gweithredu 11. Grŵp dangosyddion PBC i fwydo i mewn i grŵp LlCC pan fo canlyniadau'r contract yn ceal eu cyhoeddi yn Ebrill

Holodd David Allen a fyddai'n well gennym set fechan o ddangosyddion bioamrywiaeth o fewn y Strategaeth Amgylcheddol neu Ddatblygu Cynaliadwy yn unig, neu set fwy/ehangach o ddangosyddion sy'n sefyll ar eu pennau eu hunain.

Dywedodd Jan Sherry fod CCGC yn casglu mwy o ddata ar gyfer Atodiad 1 a 2 y Gyfarwyddeb Cynefinoedd a holodd a fyddai'n rhain yn cael eu cysylltu â dangosyddion LlCC. Yn ôl Hazel Drewett, os oedd dangosydd yn cael ei ddewis yna byddai casglu data i'r dangosydd hwnnw yn mynd i mewn i'r cynlluniau goruchwylio.

Gweithredu 12. David Allen i drefnu cyfarfod cychwynnol y grŵp dangosyddion PBC: David Allen, Stephen Bladwell, Sean Russel a rhywun o Plantlife.

Gweithredu 13. David Allen i siarad â Bill Sanderson i ofyn a hoffai ymuno â'r grŵp Dangosyddion (swyddog CCGC yn arwain ar ddang.morol).

Gweithredu 14. Plantlife i gael cynrychiolydd i grŵp dang. PBC

Papur 5: Materion Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol
Cysylltodd cwmni dosbarthu llinellau trydan â Gareth Ellis ynghylch torri coed allai fod yn berygl mewn storm o fewn 20m i linellau trydan. Ymddengys fod ganddynt ddyletswydd i wneud hyn ond nid ydynt o reidrwydd yn ymwybodol o'r materion bioamrywiaeth. Mae'r Adran EaT wedi cael problemau tebyg hefyd gyda chwmnïau llinellau trydan ar eu safleoedd. Mae angen egluro iddynt eu bod yn gweithio i gorff llywodraeth ac felly eu bod yn dod o dan ddyletswydd bioamrywiaeth NERC yn ogystal â'r Rheoliadau Cynefinoedd.

Gweithredu 15. Gareth Ellis i lunio rhestr fwled o'r materion y mae angen i gwmnïau llinellau trydan eu hystyried (ar gael gyda'r cofnodion yma) a'i dosbarthu i Chris Tucker (CC Cymru) a Diana Reynolds.

Croesawodd Gareth nodyn llywodraethu PBC drafft Diana Reynolds.

Gweithredu 16. Pawb – y Tîm Cefnogi i ddosbarthu nodyn llywodraethu PBC i gael adborth pellach.

Y cysylltiad rhwng Grwpiau Ecosystem a CGBLl – ychydig iawn o swyddogion CGBLl sydd ar y grwpiau ac mae'n bwysig sicrhau fod cyfathrebu'n digwydd rhwng y grwpiau a CGBLl. Awgrymodd Jan Sherry y gellir codi'r mater hwn gyda swyddogion CGBLl yn y gweithdai Dyfodol CGB, er y byddai'n ddefnyddiol cael un swyddog CGBLl ar bob grŵp, a fyddai wedi yn adrodd yn ôl i'r lleill.

Gweithredu 17. Bydd strwythur y grŵp Ecosystem o grŵp gorchwyl a gorffen CGB yn dod i PBC fel papur ym mis Gorffennaf

Creu'r cysylltiadau – sicrheir swyddogion CGBLl ac Ecolegwyr fod materion Creu'r Cysylltiadau yn cael eu trin gan y PBC a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Papur 7: Grŵp Creu'r Cysylltiadau Gogledd Cymru – trafodaeth i edrych ar bryderon, Diana Reynolds, LlCC/PBC ar ran CLlLC

Bydd y papur byr a ddarparwyd gan Stephen Jones yn cael ei roi ar wefan PBC yn adran SG7. Ceir sicrhad nad ydynt yn sôn am golli staff, er y gallai staff orfod symud eu lle gwaith. Cafodd y Grŵp lawer o ymateb o nifer o sectorau ac maent yn ail-ysgrifennu'r ail adroddiad yn seiliedig ar yr adborth hwn. Maent wedi bod yn ymgynghori â'r cyrff statudol ac maent i gyd yn cwrdd ddydd Iau 12fed Chwefror 2009. Dywedodd Diana Reynolds fod PBC yn ddiolchgar iawn i Stephen Jones CLlLC am ei waith yn datrys y sefyllfa hon. Gofynnwyd i Diana fod y prif gyswllt bioamrywiaeth ar ran tîm Creu'r Cysylltiadau LlCC.

Cyflwyniad Dosbarthiadol: Cimwch y mor (Palinarus elephas) – casglu cofnodion o hen lyfrau log plymwyr hamdden. Kate Lock, Cydlynydd *Seasearch* Gorllewin Cymru.
Prosiect cenedlaethol yw *Seasearch* (http://seasearch.wisshost.net/) sy'n cael ei gynnal drwy'r gymdeithas gadwraeth forol. Maent yn hyfforddi plymwyr hamdden i wneud arolygon cynefin a rhywogaethau morol. Yn dilyn hyfforddiant maent yn trefnu plymwyr i dargedu ardaloedd arolwg, e.e. cynefinoedd a rhywogaethau CGB. Mae gan Kate gydweithiwr yng Ngogledd Cymru.

Mae Cimychiaid y Môr (coch o dan y dwr, cimwch (lobster) yn las o dan y dwr) yn tyfu hyd at 50cm, mae'r rhai bach yn hoffi cynefinoedd creigres greigiog wrth iddynt guddio mewn cilfachau a thyllau. Maent wedi'u dosbarthu'n da o ddyfnder 5m i lawr. Fe'u gwelir o amgylch Penrhyn Llyn ac arfordir Sir Benfro ond ychydig o ddata sydd ar gael ar eu dosbarthiad.

Yn 1979 daliwyd tua 55000kg o gimychiaid y mor, erbyn 1995 dim ond 500kg. Mae'r newidiadau mewn dulliau pysgota (o botio i rwydi clymog) wedi cyfrannu at y dirywiad cyflym hwn yn eu poblogaeth. Roedd llawer o'r plymio yn yr 1970au yn targedu cimychiaid ond cyn hir daeth yn aneconomaidd plymio am gimychiaid. Bellach nid oes pysgota cimychiaid wedi'i dargedu ond os cant eu dal, maent yn mynd am bris uchel. Ar hyn o bryd ychydig a wyddon am gylch bywyd cimwch y môr felly nid ydym yn sicr sut gellir adfer y boblogaeth.

Mae CCGC (drwy'r JNCC) wedi eu cynnig fel rhywogaeth ymgeisydd am Restr 5 o Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Yn y cyfamser maent yn ceisio casglu mwy o ddata ar gimwch y môr.

Yn y blynyddoedd diwethaf gwnaeth Seasearch gofnod ar-lein ar gyfer y bibell fôr drwynllydan. Hysbysebwyd hyn mewn cylchgronau plymio a daeth 80% o'r cofnodion gan blymwyr nad oeddent yn rhan o Seasearch. Hoffai Seasearch wneud yr un fath gyda'r cimychiaid gan eu bod yn hawdd eu hadnabod a'r math o beth fyddai'n cael ei gofnodi yn llyfrau log y plymwyr. Mae yna 40 o glybiau plymio yng Nghymru gyda hyd at 2000 o blymwyr. Hoffent hefyd gael golwg ar lyfrau log cofnodion plymio hanesyddol i gael data o'r gorffennol.

Mae'r plymiadau a drefnir gan Seasearch yn tueddu i gynnwys pobl o nifer o wahanol glybiau plymio. Pe baen nhw'n cael pecynnau gwybodaeth ar y cimwch gallent fynd â nhw i'w clybiau plymio i ledaenu'r neges a chael cofnodion gan bob clwb. Mae gan bob cofnod ddyddiad a safle'n gysylltiedig ag ef.

Byddai Seasearch yn cydgasglu'r wybodaeth ac yn llunio tablau i'w rhoi yn y Cofnodydd Morol i gynhyrchu mapiau dosbarthiad y rhywogaeth. Yna gallent gynhyrchu mapiau grid 20km2 o Gymru. Gallai'r data gyfrannu at raglennu adfer posibl a galluogi arolygon mwy pendant.

Gofynnodd David Jenkins a oedd cimychiaid y môr yn cario wyau yn eu cynffonnau yn yr un ffordd a'r cimwch gan y byddai hynny'n arwain at y posibilrwydd o gael deorfeydd fel i'r cimwch? Os gwelir rhai benywaidd yn yr haf gallent fod yn cario wyau ond yn gyffredinol mae'n anodd mynd yn ddigon agos i'w gweld.

Eglurodd Aethne Cooke fod ffrwythlondeb cimychiaid y mor yn llawer is na'r cimwch cyffredin felly mae angen camau cryfach i'w hadfer. Mewn perthynas â'r cynnig Rhestr 5, mae adolygiad rhestr 5 yn digwydd bob 5 mlynedd. Mae'r JNCC yn anfon argymhellion i'r Gweinidog Jane Davidson, yna fel arfer mae'r llywodraethau datganoledig yn aros i DEFRA ymateb i'r argymhellion ond mae hyn wedi achosi oedi hir yn y gorffennol. Gofynnodd Aethne i PBC ofyn i LlCC i ymateb nawr yn hytrach nag aros i DEFRA.

GWEITHREDU 18. Diana Reynolds i flaenoriaethu adolygiad Rhestr 5 er mwyn cael ymateb cynt.

GWEITHREDU 19. Kate Lock i anfon amilnelliad o'r prosiect i Sean McHugh i drafod cyllid PBC i'r prosiect.

Papur 6: Gwarchodaeth statudol i gynefinoedd sensitif yn nyfrffordd Aberdaugleddau o weithgaredd pysgota treillio. Aethne Cooke, CCGC.

Mae CCGC wedi bod yn siarad a diwydiant a physgodfeydd LlCC i gael gwarchodaeth statudol i'r *maerl*, y morwellt a'r gwelyau cynhenid yn Nyfrffordd Aberdaugleddau. Hyd yma ni fuont yn llwyddiannus gyda'r warchodaeth statudol ond mae ganddynt gynllun gwarchod gwirfoddol mewn lle.

Cynigiodd Aethne fod PBC yn cysylltu â physgodfeydd LlCC i weld a allent sefydlu gwarchodaeth statudol neu a allai'r pwyllgor pysgodfeydd osod is-ddeddf ar y gwelyau hyn. Mae Rheoliad 48 y Rheoliadau Cynefin yn caniatau is-ddeddfau i amddiffyn darnau arbennig o welyau mor ac mae Pwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd Cymru wedi sefydlu ardaloedd a warchodir gan is-ddeddf ond nid yw Pwyllgor Pysgodfeydd Môr De Cymru wedi gwneud hyn eto.

Atebodd Diana Reynolds fod gan bawb gyfrifoldeb i ddefnyddio Rheoliad 48 i unrhyw gynllun neu brosiect ond cydnabu nad oedd hyn wedi digwydd eto yn ardal pysgodfeydd mor De Cymru oherwydd y diffyg data. Mae'r treillio newydd ddigwydd ym mis Ionawr, ac mae'r bwlch data wedi'i lenwi bellach gan CCGC felly dylai fod modd darparu asesiad llawn ar gyfer y penderfyniad fis Ionawr nesaf.

Mae Pysgodfeydd LlCC yn awyddus i ddatrys y mater hwn ac ar hyn o bryd maent yn casglu tystiolaeth ar gyfer gwarchodaeth statudol. Eglurodd Hazel Drewett fod cyfarfod wedi'i gynnal ar 30ain Ionawr 2009, i drafod rhwydo cregyn bylchog ar draws Cymru. Dyma'r camau a ddeilliodd o'r cyfarfod:

- LlCC i alw gweithgor bach i edrych ar rwydo cregyn bylchog.
- CCGC i edrych ar sensitifrwydd gwely'r môr.
- Canfod deilliannau erbyn mis Hydref 2009.
- Ystyried offeryn statudol Cymru gyfan.

GWEITHERDU 20. Diana Reynolds i gael yr amserlen gan bysgodfeydd LICC, yna ystyried a oes angen i PBC ysgrifennu llythyr.

Papurau i'w Nodi

A: Cynllun gweithredu rhywogaethau estron goresgynnol
Mae'r grwp Rhywogaethau Estron Goresgynnol (INNS) yn gweithredu strategaeth INNS y DU yng Nghymru.
Roedd GLlPBC yn credu y dylai rhai rhannau o INNS y DU gael eu hychwanegu at Gynllun Gweithredu Cymru o dan adran 'y tu hwnt i Gymru' ar y cynllun, yn cynnwys:

- Gwaith asesu risg (Cenedlaethol ond yn rhaeadru i lefel Cymru)
- Strategaeth gyfryngau drwy'r DU (yn mynd i fwrdd y DU ddiwedd Mawrth i'w chymeradwyo)
- Datblygu dangosyddion rhywogaethau goresgynnol, adroddiad newydd gael ei gyhoeddi gan DEFRA (lefel DU ond rhywfaint o ymdrech i'w ddatgrynhoi i lefel gwlad).
- Adolygiad dan arweiniad yr Alban i effaith economaidd INNS a fydd yn cael ei fwydo i lawr i Gymru.

Dywedodd David Jenkins y gellid ystyried bod dwy gangen i'r cynllun gweithredu, 1) y gwaith llafurus o geisio rheoli rhywogaethau a 2) newid technolegol.

Cyhoeddodd Robin Woodyatt fod gan ymddiriedolaethau afonydd De Ddwyrain Cymru gyllid i hyfforddi 40 o chwistrellwyr gwirfoddol, bydd y fenter hon yn mynd i'r gymdeithas afonydd i'w symud ymlaen ac mae pethau'n edrych yn eithaf cadarnhaol ar hyn o bryd.

GWEITHREDU 21. Robin Woodyatt i roi rhywun o'r ymddiriedolaethau afonydd mewn cysylltiad â Bill Somerfield.
GWEITHREDU 22. Pawb – anfon unrhyw weithredu INNS i Bill Somerfield neu Heli Gittens fel eu bod yn gallu diweddaru'r awdit gweithredoedd.
GWEITHREDU 23. Heli Gittens, newid pennawd y 3edd golofn i 'adnoddau' yn hytrach na 'chyllid'.

Awgrymodd Kate Williamson, yn ychwanegol at y cynllun gweithredu a ddarperir gan yr awdit, y byddai'n well cael adroddiad sy'n codi'r materion a nodwyd gan yr awdit fel meysydd sy'n brin neu angen eu datrys.

GWEITHREDU 24. Grwp INNS i roi papur i PBC sy'n codi'r materion a nodwyd gan yr awdit fel meysydd sy'n brin neu angen eu datrys, ar agenda nesaf INNS.

B: BARS
Yn ychwanegol at y cynnydd y sonnir amdano yn y papur, dywedodd Diana Reynolds fod nifer o adrannau LlCC hefyd yn cymryd camau cadarnhaol. Hefyd mae Jodi Massey yn Nhim Cadwraeth Natur LlCC wrthi'n diweddaru gweithredoedd strategol y Strategaeth Amgylcheddol.

GWEITHREDU 25. Pawb, i gysylltu a Juliet Hynes (j.hynes@welshwildlife.org) os ydych eisiau trafod sut y gallai'ch mudiad wneud mwy o ddefnydd neu well defnydd o BARS.

C: Diweddariad Trosedd Bywyd Gwyllt
Gweler hefyd gweithredoedd 5 i 7. Bydd achosion a gwblhawyd yn mynd ar wefan PBC, ni fydd y rhai sydd dal yn mynd rhagddynt.

GWEITHREDU 26. Ian Guildford, i gynnwys materion pysgodfeydd a morol ar y rhestr.
GWEITHERDU 27. CCGC, pwyllgorau Pysgodfeydd Mor ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru i adrodd am unrhyw droseddau pysgodfeydd neu ACA morol i Ian Guildford.
GWEITHREDU 28. Ian Guildford i ail –drefnu'r rhestr i 'Cymru' a 'Arall' (i gynnwys Ewrop a'r DU).

D: Grwp Ecosystem Gwlyptiroedd
Mae tri grwp Ecosystem dal angen cyfarfod, mae'r grwpiau a gyfarfu hyd yn hyn wedi cael cyfarfodydd llwyddiannus. Y materion penodol i PBC a ddaeth allan o gyfarfod y grwp Gwlyptiroedd oedd:
Unrhyw gyngor ar gyllid allanol?
GWEITHREDU 29. Bydd y grwp gwlyptiroedd yn llunio rhestr o safleoedd y gall Charles wedyn eu trosi'n nifer o brosiectau. Bydd angen i PBC feddwl am sut y gallent gefnogi'r prosiectau hyn.

Hysbysiad SoDDGA – mae rhaglen arolwg Cam II Peter Jones yn canfod gwlyptiroedd o ansawdd SoDdGA ond gall fod angen help gan PBC i annog hysbysu'r safleoedd yma.
GWEITHREDU 30. Hazel Drewett i adrodd yn ol wrth CCGC fod angen cyflwyno'r rhain mor effeithiol ag y bo modd.

Rhestr o safleoedd o bwysigrwydd lleol - a oes yna restr o'r safleoedd hyn ar gyfer Cymru gyfan? Byddai'n ddefnyddiol gweld pob un o safleoedd yr ail haen ar draws Cymru.

GWEITHREDU 31. Hazel Drewett i godi mater safleoedd gwlyptir o bwysigrwydd lleo gyda Fforwm Gwybodaeth Amgylcheddol Cymru, dylai rhai safleoedd fod gyda'r Canolfannau Cofnodion Lleol yn barod.
GWEITHREDU 32. Diana Reynolds i drafod amrywiol faterion gwlyptir gyda John Westlake a chydweithwyr dŵr.

Gall grwpiau Ecosystem adrodd yn ol i GLlPBC fel a phan y dymunant. Gallant siarad â'r grŵp polisi yn y lle cyntaf ond os nad ellir datrys materion dylent ddod â nhw i GLlPBC wedyn. Gellir cael adroddiad blynyddol gan bob grwp y gellir eu rhoi yn amserlen ddrafft adroddiadau blynyddol.

GWEITHREDU 33. Juliet Hynes i roi'r grwpiau ecosystem yn yr amserlen adroddiadau blynyddol ddrafft.

E: Y camau nesaf yng Nhgadwraeth y Wiwer goch yng Nghymru
Cynhelir cyfarfod ddiwedd Mawrth rhwng y Fforwm Gwiwerod Coch a Phartneriaeth Gwiwerod Cymru. Gobeithir y bydd y meini prawf asesu a'r cynllun gweithredu'n cael eu cymeradwyo yn y cyfarfod hwn.

F: Cynllunio PBC
GWEITHREDU 34. Pawb – anfonwch unrhyw ddigwyddiadau ar gyfer y Diwrnod Bioamrywiaeth Rhyngwladol i Sean McHugh i fynd ar y wefan (s.mchugh@welshwildlife.org).
GWEITHREDU 35. Pawb – anfonwch unrhyw ddigwyddiadau ar gyfer Wythnos Bioamrywiaeth Cymru i Sean McHugh i fynd ar y wefan.

Trafodwyd thema cynhadledd PBC 2009, awgrymwyd y dylai'r strwythur CGB newydd o grwpiau ecosystem ac arbenigwyr rhywogaethau fod yn gefndir i'r gynhadledd. Y brif thema oedd yn well gan bobl i'r gynhadledd oedd "Dathlu Llwyddiant", h.y. sôn am yr hyn rydym wedi'i wneud, enghreifftiau ymarferol i'n hysbrydoli y tu hwnt i dargedau 2010.

GWEITHREDU 36. Pawb – anfonwch unrhyw syniadau ar gyfer y gynhadledd i Sean McHugh i fynd ar y wefan, gyda'r syniad o "Ddathlu Llwyddiant".

Soniwyd am adroddiad Rheoli Risg Llifogydd (gwaith ar y cyd rhwng Imperial College a phrifysgol Nottingham) sy'n ymchwil gwyddonol da ar fynd o bolisi i ymarfer; mae darparu bioamrywiaeth yn cynhyrchu buddion mesuriadwy.

GWEITHREDU 37. David Jenkins i roi cysylltiadau FRMRC i Sean Mc Hugh.

G: Grŵp Polisi
Mae'r Grŵp Polisi wedi drafftio canllaw ar restr Adran 42 a'r broses gynllunio. Awgrymodd Diana Reynolds fod hon yn cael ei chynnwys gyda rhestrau gwirio PBC fel canllaw anffurfiol fel y gellir adeiladu arni, cyn, o bosibl, cael ei chynnwys fel canllaw swyddogol o fewn yr adolygiad cynllunio sydd ar y gweill ar hyn o bryd.

Croesawodd Alison Smith y canllaw fydd yn cynnig cysondeb yn y dull o drafod rhywogaethau a chynefinoedd Adran 42. Holwyd a oedd yna unrhyw ffordd i fonitro llwyddiant neu gysondeb neu ddylanwadu ar benderfyniadau cynllunio; mae CCGC yn edrych ar effaith eu cyngor ar wneud penderfyniadau ac mae LlCC yn ystyried yr angen am ymchwil ar ansawdd arolygon wrth wneud penderfyniadau.

GWEITHREDU 38. Pawb, sylwch ble mae'r canllaw adran 42 yma'n cael ei ddefnyddio a rhowch wybod i dîm cefnogi PBC.
GWEITHREDU 39. Grŵp polisi, newid ychydig ar eiriad pwynt bwled 1 ar ganllaw Adran 42 er mwyn bod yn gliriach am rôl CCGC.
GWEITHREDU 40. Grŵp polisi i gynhyrchu 2 fersiwn o ganllaw Adran 42, y naill ar gyfer cynllunio a'r llall ar gyfer gwneud penderfyniadau mwy cyffredinol, i gynnwys nodiadau atodol byr i'r siart.

Soniwyd am y bwledi gwrthdaro mewn deddfwriaeth o GLlPBC5 fel rhywbeth y gellid ei gynnwys yn y canllaw.
GWEITHREDU 41. Pawb, sylwadau ar ganllaw Adran 42 i'w dychwelyd i Delcie Simkin (Delcie.Simkin@wales.gsi.gov.uk) o fewn 2 wythnos.
GWEITHREDU 42. Y grŵp polisi, cynnwys cydlynydd CGB fel person cymwys i roi cyngor – siart llif blwch 4.

Diweddariad Partneriaeth Arfordirol a Morol Cymru (WCMP).
Mae Steve Moon yn ymddiheuro. Bydd tîm cefnogi PBC yn cael diweddariad gan Steve ac yn dosbarthu hwn i'r bartneriaeth.
Mae Lisa Moutselou yn gadael WCMP ar 13eg Chwefror 2009, ddim yn siŵr sut na phryd y daw rhywun yn ei lle. Bydd Diana Reynolds yn siarad â'i chydweithwyr yn LlCC am y sefyllfa.

GWEITHREDU 43. Tim cefnogi PBC i ddosbarthu diweddariad WCMP i'r bartneriaeth.
GWEITHREDU 44. Diana i adrodd yn ôl am drefniadau newydd WCMP i GLl8

Diweddariad y Pwyllgor Sefydlog – dim cyfarfod.

Cadarnhau cofnodion GLlPBC6
Cadarnhawyd cofnodion GLlPBC6 fel rhai cywir gyda dau fân gywiriad i Dudalen 5 par: hamdden dolydd o dan Tir Gofal, a sillafiad enw Mike Dunn.

Gweithredoedd yn weddill o GLlPBC6

Gweithredu 19 – derbyniwyd enghreifftiau o ddim colled net, delio â nhw i weld a ellir osgoi hyn yn y dyfodol. Yn gysylltiedig â hyn, daeth i sylw'r tim cefnogi, wrth dorri coed i glirio coedwigoedd, nad yw bob amser yn amlwg fod rhywogaethau'n cael eu hystyried. Awgrym y gallai swyddogion CGBLl gydlynu hyfforddiant ar rywogaethau allweddol i staff coedwigaeth.

Awgrymodd Chris Tucker ei fod yn fwy tebygol nad yw'r Comisiwn Coedwigaeth yn dweud beth maent yn ei wneud, dylai astudiaeth achos a anfonodd Chris i dîm cefnogi PBC dawelu ofnau. Gallai hyfforddiant rhywogaethau fod o gymorth. Mae'r CC eisoes yn trefnu hyfforddiant gyda rheolwyr gweithredol yn y gwanwyn. Awgrymodd Gareth Ellis fod hon yn broses ddwy ffordd a bod angen i'r CGBLl hefyd siarad a'r CC pan eu bod yn gwybod am fodolaeth rhywogaethau arbennig ar dir coedwigaeth.

GWEITHREDU 45. Gareth Ellis a Chris Tucker i gael sgwrs am gefnogi hyfforddiant y CC.
GWEITHREDU 46. Pawb, atgoffa swyddogion rhanbarthol/lleol bod angen iddynt gymryd rhan yn y CGBLl a dylent ail-ddechrau cyfathrebu os yw hynny wedi peidio oherwydd newidiadau staff (cysylltwch â thîm cefnogi PBC os ydych angen unrhyw fanylion cyswllt CGBL).

Gweithredu 42: Datblygodd grŵp a roddwyd at ei gilydd yn 2006 y pecynnau rhywogaethau ar gyfer Amaeth-Amgylchedd. Roedd Grwp Tasglu Dyfodol CGB yn credu y byddai'n fwy addas i'r grŵp hwn wneud hyn na'r grŵp arbenigwyr rhywogaethau ei hun.

GWEITHREDU 47. Stephen Bladwell i adrodd yn ôl fod PBC yn hapus â'r trefniant hwn.

Cytunwyd ar Femorandwm Dealltwriaeth Natur Cymru ond ni ofynnwyd i Diana Reynolds ei lofnodi eto.

GWEITHREDU 48. Mandy Marsh i anfon y Memorandwm i Diana Reynolds ei lofnodi.

Gweithredu 50-51: Mae Ecotype (cyhoeddiad ymchwil coedwig) yn cynnwys erthygl wedi'i diweddaru ond nid yw Michelle Bromley wedi derbyn data CCGC.

GWEITHREDU 49. Hazel Drewett i chwilio am ddata CCGC i Michelle Bromley
GWEITHREDU 50. Chris Tucker i anfon dolen gwefan erthygl Ecotype i dim cefnogi PBC.
GWEITHREDU 51. Pawb, os ydych yn cael gafael ar ffogotraffau o'r awyr, cyslltwch a Chris Tucker chris.tucker@forestry.gsi.gov.uk i gydlynu amserau defnyddiol o'r flwyddyn i gael data coedwigaeth.

Yn chwilio am wirfoddolwr i gyfarfod Cronfa Dreftadaeth y Loteri ym mis Mawrth.

GWEITHREDU 52. Cynigiodd David Jenkins ofyn i'w gydweithwr cyllid i fynychu'r cyfarfod uchod.

Angen gwirfoddolwr i fwrdd cyllido WREN i sicrhau fod bioamrywiaeth yn cael ei gynnwys ar yr agenda. Cyfarfod cyntaf tua 24-26 Mawrth.

GWEITHREDU 53. Cynigiodd Stephen Bladwell ddod o hyd i rywun i fynychu WREN, os na fyddai'n llwyddo, cynigiodd Alison Smith fod wrth gefn.

Gweithredu 53: Martin Parkinson yn dod yn lle Russel De'ath fel arweinydd cyllid CCGC.

GWEITHREDU 54. Bydd Martin Parkinson yn galw cyfarfod gyda chynrychiolwyr CC ac AA.

Dulliau cefnogi PBC; rydym eisiau parhau gymaint ag y gallwn fel y mae pethau nawr ac wedi gofyn i Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru a phrosiect CCGC i symud ymlaen ar hyn (Howard Davis WTW yn arwain ar hyn).

Mae LlCC yn ystyried comisiynu adolygiad byr o systemau a gwasanaethau presennol PBC i fwydo i mewn i'r broses hon.

GWEITHREDU 55. Pawb, rhowch wybod i Diana Reynolds os oes newidiadau yr hoffech eu gweld neu os oes gennych gynnig arall i ddarparu gwasanaethau cefnogi PBC.

UNRHYW FATER ARALL
Cynnig i luosogi llwyfenni o GLl5. Mae Sean McHugh a David Jenkins wedi siarad, ond nid oedd digon o arian yng nghyllideb PBC, a fyddai wedi costio £3000 i'r Llwyfen a gellid ei ymestyn i'r Aethnen. Angen dechrau casglu deunydd ym mis Gorffennaf.

GWEITHREDU 56. Sean McHugh i weld a oes £3000 i'r Llwyfen ar gael yng nghyllideb PBC.
GWEITHREDU 57. Alison Smith i anfon enw swyddog adfywio coedwigoedd Blaenau'r Cymoedd i David Jenkins fel ffynhonnell gyllid arall bosibl.

Dywedodd Gareth Ellis fod Buglife wedi gwneud asesiad o arwyddo rhywogaethau i infertebratau, byddai o ddefnydd i Grwp Gorchwyl a Gorffen Dyfodol CGB fod yn ymwybodol o hyn. Mae'r Grwp G a G eisoes wedi dechrau ymarfer arwyddo newydd i Gymru, bydd rhywun o Buglife yn dod i gyfarfod nesaf grwp arbenigwyr rhywogaethau.

GWEITHREDU 58. Gareth Ellis i anfon yr ymarfer arwyddo Buglife ymlaen i Juliet Hynes.

Holodd Stephen Bladwell a oedd rhagor o wybodaeth am doriadau yng nghyllideb grant CCGC, a fydd yn effeithio ar gyflawni'r gweithredoedd. Atebodd Hazel Drewett fod yna dorri grantiau ond sicrhaodd y grwp na fyddai grantiau bioamrywiaeth yn cael eu torri. Mae'r toriadau'n digwydd mewn meysydd eraill a lle bo modd bydd adnoddau'n cael eu cyfeirio i'r lle mae mwyaf o angen.

Rhybuddiodd Glenda Thomas (FWAG) fod bioamrywiaeth ar ffermydd wedi arafu yn dilyn dod a Thir Chynnal i ben a'r arafu yng nghyllid Tir Gofal. Ychydig o ddiddordeb a gafodd Gwell Coetiroedd i Gymru ar ffermydd.

Mae cynllun tir comin Gwyr wedi llwyddo i wneud cynnyrch hyfyw o redyn: mae angen annog gweithgareddau hunan-gynhaliol fel hyn.

Gofynnodd Kate Williamson sut oedd cynllun grant newydd CCGC yn dod yn ei flaen (papur yn GLlPBC8). Maent yn casglu data/barn (yn fewnol yn hytrach na defnyddio ymgynghorwyr) gan bobl sydd wedi a heb gynnal cynlluniau grant. Casgliadau cryno erbyn diwedd Mawrth, yna gweld beth yw cwmpas cynlluniau o'r fath erbyn y flwyddyn ariannol nesaf. Holodd Jan Sherry a ellid defnyddio'r grwpiau Ecosystem/Rhywogaethau i asesu ceisiadau i flaenoriaethu. Cytunodd Hazel y gallent ystyried defnyddio PBC fel corff cymeradwyo strategol ar gyfer y cynllun grant. Byddai cyllid cydweithredol yn cael ei gydlynu gan y grwpiau Ecosystem/rhywogaethau yn hytrach na chyllid cystadleuol.

GWEITHREDU 59. Y tîm cefnogi i anfon adroddiad grant CCGC wedi iddynt ei dderbyn.
GWEITHREDU 60. Pawb, unrhyw grynodebau defnyddiol o gynlluniau grant, anofnwch y rhain at Hazel Drewett (H.Drewett@ccw.gov.uk)

Gofynnodd Kate Williamson i'r grŵp gael adborth am sut mae prosiectau'r cyflwyniad dosbarthiadol yn mynd rhagddynt.

GWEITHREDU 61. Sean McHugh i roi nodyn i'r Cadeirydd am y prosiectau dosbarthiadol cyn pob cyfarfod Grŵp Llywio i'w adrodd arno cyn y cyflwyniad dosbarthiadol nesaf.
GWEITHREDU 62. Pawb – fe'ch gwahoddir i anfon eich barn i ymgynghoriad CAP 2020 yr UE (http://cap2020.ieep.eu/have-your-say/topic/7

GWEITHREDU 63. Mae angen i'r Grŵp Llywio gynghori'r Gweinidog ar aelodaeth GLlPBC yn y dyfodol; dylai unrhyw un sy'n aelod o'r GLl ar hyn o bryd naill ai gadarnhau eu bod am barhau i fynychu neu argymell rhywun yn eu lle. Anfonwch at Delcie Simkin (Delcie.Simkin@wales.gsi.gov.uk) cyn diwedd Mehefin.

Natur – Mae IEEM yn dymuno cydweithio a PBC fel bod gwybodaeth ar gael am gyfleoedd a chyrsiau hyfforddiant a datblygu yng Nghymru.

GWEITHREDU 64. Pawb, Cynhadledd Natur 11-13eg Mawrth (http://www.natur.eu.com/)
GWEITHREDU 65. Pawb, bwydo i mewn gyrsiau, rhai llai ffurfiol neu achrededig, ar ecoleg, cadwraeth neu feysydd cysylltiedig i Marie Madigan (marie@natur.eu.com)

Dyddiad y cyfarfod nesaf:
Abertawe 8fed Gorffennaf 2009
Wrecsam 10fed Tachwedd 2009